# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Medi 2015

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

## 09.15 - 09.30 - Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

## 2 Y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Consortia Addysg Rhanbarthol ac Adolygiad Donaldson

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 48)

Llywodraeth Cymru

CYPE(4)-23-15 - Papur 1

Huw Lewis AC - y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr - Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr.

Brett Pugh, Cyfarwyddwr - Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Safonau Ysgolion

Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr - Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ynghylch Adolygiad Donaldson

(10.30 - 11.30)

Llywodraeth Cymru

Huw Lewis AC – y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr - Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr.
Brett Pugh, Cyfarwyddwr - Cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Safonau Ysgolion
Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr - Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

## 5 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg -ystyried yr adroddiad drafft

(11.30 - 12.00) (Tudalennau 49 - 88)
CYPE(4)-23-15 – Papur preifat 2

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Ymateb i adolygiad thematig Estyn o wella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol

ISBN digidol 978 1 4734 3692 3
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2015
WG24551

**Teitl yr adroddiad:**
**Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol**

**Manylion yr adroddiad**

Diben yr arolwg hwn yw adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan gonsortia addysg rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

Ar wahân, gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynnal astudiaeth o ddull Llywodraeth Cymru o wella ysgolion trwy gonsortia rhanbarthol. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliodd staff Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ymweliadau gwaith maes â phob consortiwm rhanbarthol mewn partneriaeth a rhannwyd tystiolaeth rhwng y ddau sefydliad.

Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn rhwng Tachwedd 2014 ac Ionawr 2015. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys craffu ar ystod eang o dystiolaeth o ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.**

Er na all y gwelliannau cyffredinol yn safonau cyrhaeddiad disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf gael eu priodoli'n gyfan gwbl i ddatblygu consortia rhanbarthol, mae'r data cyhoeddedig yn adlewyrchu gwelliant graddol yng nghyrhaeddiad disgyblion ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth. Mae perfformiad yn gyson uwch yn GWE ac ERW nac ydyw yn CCD a GCA. Mae deilliannau arolygu ysgolion yn eithaf tebyg ar draws y pedwar rhanbarth, er bod cyfran uwch o ysgolion yn destun pryder yn GCA ac mae gan ERW nifer uwch o ysgolion sydd angen ymweliad dilynol ar ôl eu harolwg nad ydynt wedi gwneud digon o gynnydd.

Mae'r consortia wedi bod yn araf yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn llawn yn unol â Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol ac mae'n rhy gynnar i farnu pa mor effeithiol yw'r trefniadau, uwch arweinyddiaeth a rheolaeth y consortia. Mae'r cynlluniau busnes ar gyfer 2014-15 yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf i'w gwella, er bod gwendidau yn yr holl gynlluniau. Er bod enghreifftiau o graffu trylwyr gan aelodau etholedig ar y ffordd mae consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion unigol, nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn eu huwch swyddogion a'u cynrychiolwyr i gyfrif yn ddigon da.

Mae'r adroddiadau hunanarfarnu yn rhy gadarnhaol ar y cyfan, ac yn nodi cryfderau yn fwy cywir na diffygion. Mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi ymgysylltu'n effeithiol â swyddogion Awdurdodau Lleol, arweinwyr ysgolion ac undebau llafur i ddatblygu eu blaenoriaethau a'u polisïau rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r consortia wedi ymgysylltu ddigon ag awdurdodau esgobaethol. Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer ymgynghorwyr her wedi'u cryfhau ac mae cysondeb yng ngwaith ymgynghorwyr her, er nad yw'r trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon trylwyr bob amser.

Yn GCA a CCD, mae mwy na dwywaith yn fwy o ysgolion yn cymryd rhan yn y rhaglen Her Ysgolion Cymru na'r ddau ranbarth arall ac mae diffyg eglurder ynghylch y berthynas waith ag ysgolion a sut bydd consortia yn gwerthuso eu rôl mewn gwelliannau. Nid yw'r consortia wedi monitro pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddigon agos ac nid oes gan yr un o'r rhanbarthau ddull strategol cydlynus o leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad.

Mae trefniadau addas ar waith gydag Awdurdodau Lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth am lawer o feysydd gwasanaeth ond nid oes gan yr un o'r consortia system wedi'i datblygu'n llawn i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac ysgolion. Yn gyffredinol, mae consortia'n gwybod pa mor dda y mae llawer o'u hysgolion yn perfformio drwy waith ymgynghorwyr her, ond nid yw ymgynghorwyr her yn ddigon diagnostig bob amser i ddeall pam mae ysgol yn perfformio'n dda neu i'r gwrthwyneb ac nid ydynt bob amser yn cymryd rhan ddigonol yn y gwaith o gymedroli asesiadau athrawon bob amser.

At ei gilydd, mae consortia rhanbarthol yn well yn herio ysgolion ynglŷn â'u perfformiad presennol nag ydynt yn eu cefnogi i wella. Fodd bynnag, mae'r consortia'n datblygu strategaethau i helpu ysgolion gefnogi ei gilydd, er mai dim ond CCD sy'n cynnwys pob ysgol yn ei strategaeth. Mae consortia'n darparu gwybodaeth briodol i Awdurdodau Lleol am ysgolion sy'n achosi pryder. Wedi i Awdurdod Lleol gyhoeddi hysbysiad rhybudd statudol i wella ysgol, mae'r consortiwm rhanbarthol yn gweithio'n dda gyda'r ysgol a'r Awdurdod Lleol fel arfer i gytuno ar gynllun addas a monitro cynnydd.

**Argymhellion 1-5**

**Dylai consortia rhanbarthol:**

A1 Wella trefniadau rheoli perfformiad trwy:

- gynllunio ar gyfer y tymor canolig i sicrhau dull strategol o wella ysgolion

- sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda thargedau, costau a cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni
- cofnodi, rhannu a defnyddio data (o lefel disgybl i fyny) yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion yn rheolaidd
- defnyddio dull mwy trylwyr o nodi risgiau a'u rheoli
- hunanarfarnu eu cryfderau a'u diffygion yn realistig

A2 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau ymgynghorwyr her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth

A3 Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn

A4 Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion, ac yn benodol:

- datblygu strategaethau cliriach ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial cymorth o un ysgol i'r llall
- darparu neu frocera cymorth gwell ar gyfer addysgu a dysgu mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhai craidd

A5 Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r argymhellion hyn ar gyfer y consortia ac rydym yn cytuno â'u cynnwys.

Byddwn yn trafod yr adroddiad a'i ganfyddiadau gyda'r sector yng nghyfarfod nesaf Cyfarwyddwyr CCAC a chynnal trafodaethau manwl pellach ar yr argymhellion yn uniongyrchol â phersonél allweddol y consortia (ynghyd â chyfarwyddwr arweiniol CCAC a'r prif weithredwr arweiniol), ym mhob consortiwm yn adolygiad yr haf a digwyddiadau Her sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf 2015.

Yn y trafodaethau hyn byddwn yn sicrhau bod y consortia'n mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed ac yn gweithio'n gyson ledled Cymru ar y materion dal sylw.

Yn ogystal â hyn, mae arweinwyr polisi yn y AdAS yn gweithio gyda chonsortia i sicrhau bod y materion eraill a grybwyllir yn yr argymhellion hyn wrthi'n cael eu datrys. Er enghraifft, o ran strategaethau i fynd i'r afael ag

amddifadedd, mae pob consortiwm wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau o gefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r consortia wedi cydnabod yr angen i ddatblygu sgiliau eu staff a/neu ymgynghorwyr her. I hwyluso hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru £50,000 i bob consortiwm i gynyddu ei allu tua diwedd 2014-15.

Hefyd, bydd y dull newydd o gynllunio busnes (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r consortia gyflwyno prif gynlluniau, gan gynnwys un ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol), yn annog dull mwy cydlynol o gynllunio strategol, ac eleni, mewn ymateb i adborth nad oedd digon o fanylion yn ei brif gynllun, anfonodd GWE ei strategaeth trechu amddifadedd drafft ymlaen atom. Mae o leiaf dau gonsortiwm wedi recriwtio cydlynydd Cau'r Bwlch. Mae'n ofynnol i'r consortia gyflwyno Cynllun Cymorth Grant Amddifadedd Disgyblion bellach hefyd, sy'n amlinellu sut y byddant yn cynorthwyo ysgolion i wneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a pha gamau y byddant yn eu cymryd, gan gynnwys adennill arian, lle mae'n amlwg nad yw'r grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd.

Drwy'r Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r consortia ar ddatblygu ystod eang o ddarpariaeth dysgu proffesiynol a fydd yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith ysgolion arloesol. Bydd y dull hwn yn hwyluso mwy o gydweithio rhwng ysgolion.

**Argymhellion 6-7**

**Dylai awdurdodau lleol:**
A6 Gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol.

A7 Datblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r argymhellion hyn ar gyfer Awdurdodau Lleol ac rydym yn cytuno â'u cynnwys.

Fel yr amlinellir uchod, byddwn yn trafod yr adroddiad gyda chyfarwyddwyr arweiniol CCAC ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi Awdurdodau Lleol a chonsortia i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

**Argymhellion 8-13**

**Dylai Llywodraeth Cymru:**
A8 Wella'i strategaeth i ddatblygu uwch arweinwyr a rheolwyr ar gyfer addysg ar lefel awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol

A9 Cydweithio'n fwy â chonsortia ac awdurdodau lleol i gytuno ar gynlluniau busnes tymor byr a thymor canolig a lleihau ceisiadau i newid ac ychwanegu at gynlluniau yng nghanol blwyddyn

A10 Sicrhau bod categoreiddio ysgolion yn cael ei safoni'n drylwyr ar draws y consortia

A11 Datblygu dealltwriaeth ar y cyd rhwng athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru am ddiben targedau cyrhaeddiad a'r defnydd a wneir ohonynt

A12 Ymgysylltu'n fwy effeithiol ag awdurdodau esgobaethol i ddatblygu eu strategaeth ar gyfer gwella ysgolion

A13 Sicrhau bod consortia, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau priodol ar gyfer ysgolion yn rhaglen Her Ysgolion Cymru

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r argymhellion hyn ar gyfer Llywodraeth Cymru ac rydym yn eu derbyn i gyd.

Byddwn yn gweithio gyda'r consortia a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Fel y crybwyllwyd eisoes, rydym wedi symud eleni i symleiddio'r broses o gynllunio busnes y consortia i brif gynlluniau busnes sy'n cwmpasu cyfnod o flwyddyn er mwyn rhoi ffocws ar fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol a'u cefnogi. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau gyda phrif weithredwyr arweiniol consortia,Gyfarwyddwyr a Rheolwr Gyfarwyddwyr arweiniol i newid i gylch cynllunio tair blynedd er mwyn cefnogi datblygiad targedau tymor hirach a chynaliadwyedd. Byddwn hefyd yn datblygu'r grant Gwella Addysg ymhellach i gefnogi cynllunio yn y tymor hirach.

Rydym wedi gweithio gyda'r consortia drwy grŵp Safonau Ansawdd CCAC i adolygu a datblygu ymhellach y broses o gategoreiddio, safoni a dilysu. Yn sgil hynny, bydd canllawiau'n cael eu diweddaru a'u cryfhau i sicrhau cysondeb ledled y rhanbarthau. Bydd proses o gymedroli ar gyfer Cymru

gyfan yn cael ei rhoi ar waith hefyd.

Ar ôl datblygu'r Model Cenedlaethol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau gyda'r cyrff esgobaethol ynglŷn â'u hymgysylltiad â'r Model Cenedlaethol. Byddwn yn cyflymu'r gwaith hwn ac yn sicrhau bod eglurder rhwng CCAC, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau Esgobaethol o ran gwella ysgolion.

Mae Her Ysgolion Cymru yn adeiladu ar y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Rhanbarthol, ac yn cyflymu a chanolbwyntio'r strategaeth gwella ysgolion. Cyflwynwyd y rhaglen yn ffurfiol mewn ysgolion ym mis Medi 2014 a bu Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda a thrwy'r consortia rhanbarthol i bennu rolau a chyfrifoldebau. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, mae trefniadau adrodd wedi'u sefydlu'n well. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i wella a choethi, yn ôl yr angen.

Sefydlodd rhaglen Her Ysgolion Cymru Fwrdd Gwelliannau Carlam ar gyfer pob ysgol Llwybrau Llwyddiant. Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd yr holl randdeiliaid allweddol i fonitro cynnydd, darparu her, a dwyn yr ysgol a'i harweinwyr i gyfrif. Mae aelodau'r Bwrdd hwn yn cynnwys y pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, cynrychiolydd o'r awdurdod lleol, pennaeth clwstwr cynradd ac ymgynghorydd Her Ysgolion Cymru. Mae'r model Bwrdd Gwelliannau Carlam wedi cael croeso cynnes ac mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu ei fod yn fecanwaith effeithiol i sbarduno gwelliannau yn yr ysgol. Mae nifer o awdurdodau lleol a chonsortia wedi mabwysiadu'r model hwn ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder yn eu hardaloedd.

**Manylion cyhoeddi**

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar neu ar ôl **3 Mehefin 2015** a gellir ei weld ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Owen Evans
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar AM
Chair to the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

7 July, 2015

Dear Darren

**Auditor General's report:** ***"Achieving improvement in support to schools through regional education consortia – an early view"***

In response to your letter of 3 June, please find attached at annex A, a Welsh Government response to the Auditor General's report: "Achieving improvement in support to schools though regional education consortia – an early view."

You will be aware that the Auditor General asked for the study at this early stage in the development of the consortia in order to provide assurance of progress and to identify areas where additional work may be required. The report has been helpful in clarifying our approach to consortia working and our response to the recommendations reflects this.

Yours sincerely

Owen Evans
Deputy Permanent Secretary – Education and Public Services

**Annex A**

## Auditor General's report: *Achieving improvement in support to schools through regional education consortia – an early view*

## Welsh Government's response to the recommendations

**Introduction**

The Auditor General for Wales asked the Wales Audit Office (WAO) to carry out a study on the Welsh Government's approach to improving schools through regional consortia.

The WAO and Estyn carried out joint fieldwork visits to each regional consortium and evidence was shared between the two organisations. The WAO and Estyn reports were jointly published on 3 June 2015.

The fieldwork visits took place between November 2014 and January 2015. The review involved the scrutiny of a wide range of evidence from schools, local authorities, diocesan authorities, regional consortia and the Welsh Government. In addition the WAO and Estyn attended, in an observer capacity, the Ministerial review and challenge sessions undertaken in October and November 2014.

The report focuses on progress in the delivery of school improvement through regional consortia. In particular it concentrates on the development of regional consortia governance structures which are carried out by means of either joint committees or, in the case of the South East Wales Consortium, through a company structure. The WAO felt that this approach was new and the effectiveness of governance arrangements would be essential for the achievement of improved outcomes for learners in Wales.

The study was intended to provide assurance on progress and to identify areas where further work may be required to ensure that suitable governance and financial structures for the system are set in place.

With the field work having been completed less than a year in to the implementation of the National Model for Regional Working (1 April 2014), the report provides an early indication of the progress being made by the consortia.

Verbal feedback was provided by the WAO and Estyn to each consortium at the end of the fieldwork exercise; as a result, each consortium is already progressing specific recommendations. A further progress check was undertaken by officials as part of the pre-planned summer review and challenge sessions. These sessions were held across Wales between 25 June and 3 July 2015 and have contributed to the collective all Wales response to the WAO recommendations provided below.

**Recommendation One - To clarify the nature and operation of the consortia**.

WAO found there to be continuing uncertainty about some aspects of the nature of regional consortia and their present and future scope. WAO therefore recommend:

- The Welsh Government should take full account of the statutory responsibilities of local authorities, and take appropriate legal advice, when considering changes to the roles it expects of local authorities and the regional consortia.

- The Welsh Government should update the National Model to be less prescriptive on the structure under joint committees or boards whilst maintaining a focus on outcomes.

- The Welsh Government and local authorities should develop and agree a consistent approach to the role of regional consortia and the Welsh Government in school improvement interventions so that all parties are clear what they should be involved in and responsible for.

- Local authorities should clarify whether consortia services are jointly provided or are commissioned services (services provided under a joint committee arrangements are jointly provided services and are not commissioned services).

**Accept points one to three**

The National Model for Regional Working was co-constructed with key stakeholders (local authority leaders and chief officers, consortia, Estyn and head teachers) and sets out the parameters for regional consortia operation. It was always the intention to review the model and to refine it as regional consortia developed. The intention was that the National Model for Regional Working would act as a flexible framework within which consortia would operate and not a prescriptive set of instructions. It was signed-off by all 22 council leaders and their respective cabinets.

A review of the model is already underway with key stakeholders. This will provide further clarity on structures, roles and responsibilities. Robert Hill, who led on the development of the National Model for Regional Working, has been commissioned to lead this exercise which will result in some refinements to the model, in order to ensure clarity for all stakeholders. Our intention is that a refreshed model will be published by September 2015. It is also proposed that after the refinements have been agreed, a communications plan will be put in place so that all stakeholders are fully aware of the division of responsibilities.

**Partly accept point four**

We think that this this needs further exploring with the WAO as there may be misinterpretation of the arrangements that are in place.

Whilst retaining the statutory responsibility for education improvement, local authorities no longer directly provide school improvement services as single authorities. This is in line with the National Model and underpinned by the Department's overarching strategy "Qualified for Life". Three regions have decided to deliver school improvement services jointly through a consortium arrangement and one has decided to commission directly from a company (the Education Achievement Service). We are content with this approach and believe that local authorities are best placed to determine their own delivery arrangements. However we do agree that these arrangements need to be clarified and this will be reflected in the redrafted National Model for Regional Working.

**Recommendation Two - To focus on outcomes through medium term planning.**

WAO found that the development of effective regional consortia was hindered by a focus on short-term actions and uncertainty about the future of consortia. WAO therefore recommend:

- As any possible local authority re-organisation will not be fully implemented until 2020, the Welsh Government and regional consortia should develop three-year plans for the further development, scope, and funding of regional consortia linked to appropriate strategic objectives

**Accept**

Working with local authorities, consortia and the Welsh Local Government Association (WLGA) we have this year streamlined consortia business plans into headline business plans which address specified key priorities. These high level plans are underpinned by more detailed plans used by each region to inform performance management and work-streams. This year's headline plans for discussion with Welsh Government officials included 3 year milestones, so that the direction of travel for each work-stream could be shown.

We intend to move to a three year planning cycle and discussions have already taken place with key stakeholders. This approach will support the development of longer term outcome based targets and improved planning. In addition we intend to continue with our programme of rationalising grants so as to ensure that the Education Improvement Grant is firmly focused on strategic outcomes. The intention is to reduce the administrative burden and move to more outcome focussed targets. We will agree the detail by October 2015 and ensure it is fully operational for start of the 2016 financial year. The introduction of a three year planning cycle will follow the same timescale.

**Recommendation three - To develop more collaborative relationships for the school improvement system**.

The development of the National Model for Regional Working involved many school improvement partners but we found that this had not led to the development of sufficiently collaborative relationships. WAO therefore recommend:

- The Welsh Government should develop the present 'Review and Challenge' approach (where the Welsh Government hold regional consortia to account) to a more collaborative but robust comprehensive 'system review' approach in which all partners in the system share progress, challenges and issues openly.

- Regional consortia should develop improved arrangements for sharing practice and supporting efficiency (for example, one consortium could take the lead on tackling an issue or have functional responsibility for the development of a policy).

- The Welsh Government, local authorities and regional consortia should recognise the interdependency of all partners fulfilling their school improvement roles and agree an approach to:

- information sharing and consultation about developments related to school improvement;
- developing collaborative relationships of shared accountability;
- undertaking system wide reviews, and an alignment of the understanding and position of regional consortia across all Welsh Government relevant strategies

**Accept**

Since the WAO and Estyn commenced their fieldwork, the termly review and challenge sessions between Welsh Government and consortia have been reformed into an integrated cycle of reviews with clearly set aims and objectives. This has strengthened the focus of each session. We will undertake a fundamental review of the current process following the Autumn Ministerial sessions in October.

A number of joint good practice seminars have been delivered across Wales, the most recent being in North Wales coordinated by GwE but supported by and actively involving representatives from all four consortia.

The four consortia have jointly committed to facilitate a two day sharing good practice workshop to be held in September 2015. Attendance will include the full senior leadership team and second tier leaders from all four consortia. This will generate an opportunity not only to share good practice but to jointly highlight and tackle 'All Wales' issues with each consortium agreeing to lead nationally on named issues and priorities, thus avoiding unnecessary duplication across the other three. Increasingly the strategic leads for different aspects of work in each region are liaising with each other to share plans and ensure greater consistency.

The four consortia successfully submitted a joint bid to Welsh Government to provide the lead on the moderation of Key Stage assessment in Wales. That work is underway and has deepened the level of collaboration across Wales, and will grow over the coming year.

In addition, as part of the New Deal for the Education Workforce, Welsh Government is working in collaboration with the second tier leaders from each region to ensure that there is high quality provision for professional learning across Wales. This will include facilitating partnership working between the regions to share and develop provision; and agreeing the professional learning areas that each region will lead on.

Welsh Government Officials will ensure that policy teams develop their policies in a collaborative manner, engaging with consortia, ADEW and the diocesan authorities, starting in September 2015.

Welsh Government officials will support the regional consortia to develop a peer review system to encourage cross consortia working at all levels and expect this to be in place by April 2016. The teacher assessment moderation programme currently being led by the consortia is providing a firm foundation for this.

We will continue to work with Estyn as they develop their framework for consortia inspection to ensure that there is a clear focus on collaborative working amongst the four consortia

We will continue to develop with consortia school-to-school working and explore ways on how we can accelerate the federation of schools.

**Recommendation four - To build effective leadership and attract top talent.**

Regional consortia, local authorities and the Welsh Government have all found difficulties in recruiting to senior leadership for education and we found there had been limited action to address this. WAO therefore recommend:

- The Welsh Government should work with local authority leaders to improve capacity and capability in the system to support strategic development and effective governance.

- The Welsh Government and local authorities should collaborate to improve the attractiveness of education leadership roles to attract the most talented leaders for the school improvement system.

- Local authorities should collaborate to support the professional development of senior leaders and to ensure appropriate performance management arrangements are in place for senior leaders.

**Accept**

The WLGA, working with the Virtual Staff College, has developed a leadership programme for education directors in Wales. The programme is aimed initially at current serving directors with a view to further develop this for future and aspiring education directors.

The first programme takes place in Autumn 2015 and will cover theoretical leadership thinking with practical examples from Wales and England. All 22 Directors of Education will be in attendance

Through the New Deal for the Education Workforce, the Welsh Government is developing a new leadership development strategy for Wales. This will include early identification of potential leaders and strategies for development from early career in schools, up to and through headship and into wider system leadership. It will also include strands on attracting, sharing and retaining talented individuals to work in Wales.

Developing leaders for the entire system in Wales is a clear priority. The strategy will be co-designed and implemented in collaboration with leading practitioners, Consortia, local authorities and WLGA to ensure shared ownership and commitment. Additionally, the four regions will explore ways to ensure that the top talent in the school, and local authority workforce, is attracted to the most senior posts in the regions.

**Recommendation five - To improve the effectiveness of governance and management of regional consortia.**

Whilst continuing progress is being made, WAO found that regional consortia have not yet developed fully effective governance and financial management arrangements. WAO therefore recommend that local authorities and their regional consortia should:

- improve their use of self-evaluation of their performance and governance arrangements and use this to support business planning and their annual reviews of governance to inform their annual governance statements;

- improve performance management including better business planning, use of clear and measurable performance measures, and the assessment of value for money;

- make strategic risk management an integral part of their management arrangements and report regularly at joint committee or board level;

- develop their financial management arrangements to ensure that budgeting, financial monitoring and reporting cover all relevant income and expenditure, including grants funding spent through local authorities;

- develop joint scrutiny arrangements of the overall consortia as well as scrutiny of performance by individual authorities, which may involve establishment of a joint scrutiny committee or coordinated work by local authority scrutiny committees;

- ensure the openness and transparency of consortia decision making and arrangements;

- recognise and address any potential conflicts of interest; and where staff have more than one employer, regional consortia should ensure lines of accountability are clear and all staff are aware of the roles undertaken; and develop robust communications strategies for engagement with all key stakeholders.

**Accept**

Whilst refining the National Model for Regional Working, we will work with and support consortia and local authorities to further strengthen their governance arrangements. Welsh Government officials are undertaking some additional scoping work in relation to the scrutiny function. We believe that each local authority is accountable for providing assurance to its elected members and will therefore have its own scrutiny arrangements. We will however work with WLGA to support consortia and local authorities to further strengthen this area and ensure that mechanisms are developed to share innovative and best practice. Regions are already ensuring that each authority's lead members for the scrutiny function are liaising with each other to ensure best practice, and further work is already underway to share scrutiny information. All consortia are in the process of strengthening scrutiny arrangements and we expect this to be embedded by December 2015. This work will also include a consistent approach in relation to value for money for the services being delivered and the outcomes being achieved. This has been a feature of the recently completed challenge and review sessions.

Welsh Government officials are encouraging and supporting consortia and local authorities to share good practice in relation to self-evaluation processes, target setting, performance management and to further develop clear and robust financial management arrangements. An all Wales good practice event and work-shop will be facilitated by Welsh Government with the intention that strengthened arrangements will be adopted by all 22 local authorities and the consortia in preparation for the start of the financial year in 2016.

Increasingly there are specialists working across more than one consortium, and in some cases those individuals also provide support for local authorities. Clear lines of

accountability have been developed, and the strong emphasis on the performance management of Challenge Advisers together with a consistent national approach to the moderation of their work, should ensure that conflicts of interests, such as those identified in the WAO report, are more effectively managed in future.

**Monitoring Progress and Impact**

Our challenge and review sessions with each consortium will continue to monitor the progress of these recommendations along with the impact on educational outcomes across the system.  This will also be embedded within the consortia new three-year business planning cycle

# PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CONSORTIA ADDYSG RHANBARTHOL A DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD DONALDSON

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch y Consortia Addysg Rhanbarthol a chyflwyno'r diweddaraf ynghylch *Dyfodol Llwyddiannus* sef Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru ar gyfer Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth ar draws y system addysg yng Nghymru, fel y nodir yn *Cymwys am Oes*. Bydd pedwar amcan strategol yn sail i un o'n rhaglenni diwygio addysg mwyaf uchelgeisiol a radical sef:

    a. Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gryf wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio.
    b. Cwricwlwm sy’n ddeniadol ac yn atyniadol i blant a phobl ifanc ac sy’n datblygu eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn annibynnol.
    c. Pobl ifanc yn ennill cymwysterau sy’n cael eu parchu’n genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sy’n gweithredu fel pasbort credadwy i’w haddysg a’u cyflogaeth yn y dyfodol.
    d. Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunan-wella, gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol.

3. Bydd yr argymhellion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus,* yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, *Addysgu Athrawon Yfory*, yr adolygiad o Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon, a'r ymrwymiad i'r “Fargen Newydd” ar gyfer y gweithlu yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y consortia rhanbarthol, Estyn ynghyd â rhanddeiliaid eang iawn yn cynorthwyo â'r gwaith hwn.

## Y diweddaraf ynghylch Dyfodol Llwyddiannus

4. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyflwyno 68 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae'r cyfan ohonynt wedi cael eu derbyn. Mae'r argymhellion hyn yn sail i gwricwlwm a fydd yn adlewyrchu'r syniadau diweddaraf ar draws y byd ym maes addysg ac a fydd yn sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer llwyddo.

5. Rydym bellach wrthi'n llunio cwricwlwm a fydd yn cynorthwyo ein plant a'n pobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd; ac yn
- Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

6. Mae llawer wedi'i gyflawni eisoes. Pwysleisiodd *Dyfodol Llwyddiannus* fod cymhwysedd digidol yn hollbwysig i gyfleoedd person ifanc mewn bywyd ac rydym wedi derbyn y dylai cymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, yn yr un modd â llythrennedd a rhifedd. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno'n llwyr â'r argymhelliad hwn. Mae Ysgolion Arloesi Digidol wedi'u dewis ac maent eisoes wedi dechrau cydweithio.

7. O safbwynt y model ehangach o ysgolion arloesi, rydym wedi gwahodd y consortia i gydweithio â'u hysgolion ar draws Cymru, gan gynnwys rhai cynradd, uwchradd ac arbennig, i ymgeisio i fod yn Ysgolion Arloesi ar gyfer y Cwricwlwm a'r Fargen Newydd. Bydd yr Ysgolion Arloesi hyn yn cydweithio ag arbenigwyr ac yn arwain y gwaith o lywio dyfodol dysgu yng Nghymru. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ym maes addysgu chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio a datblygu ein cwricwlwm newydd ac rwy'n hyderus eu bod yn barod ac yn abl i wynebu'r her hon.

8. Yn ddiamau mae angen cefnogaeth ar y proffesiwn er mwyn gallu darparu addysg o'r radd flaenaf sy'n cyflawni deilliannau disgwyliedig dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gofynion y cwricwlwm newydd wrth wraidd y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg. Rydym felly mewn sefyllfa i fynd ati ar unwaith i gefnogi'r gweithlu addysg a'u paratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar droed.

9. Rydym hefyd yn cyflwyno newidiadau i Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a byddwn yn cydweithio â darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau bod athrawon newydd eu cymhwyso'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

10. Rydym wedi sefydlu grŵp cynghori annibynnol a fydd yn ein cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Cadeirydd y grŵp hwn fydd yr Athro Graham Donaldson a bydd yr Athro John Furlong yn ei gynorthwyo.

11. Daeth yn amlwg yn ystod sesiynau'r Sgwrs Fawr fod cryn awydd am newid ac mae angen cynnal y brwdfrydedd hwn. Rydym yn anelu at gyhoeddi ein cynllun ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus* yn ddiweddarach yn yr hydref.

**Consortia Addysg Rhanbarthol**

12. Mae gan y consortia addysg rhanbarthol swyddogaeth allweddol o safbwynt gwella ysgolion a byddant yn anelu at baratoi'r proffesiwn addysgu ar gyfer wynebu heriau a gofynion y cwricwlwm newydd. Daeth y

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol i rym ym mis Ebrill 2014. Diben craidd y consortia, fel yr amlinellir yn y Model, yw gwella deilliannau ar gyfer pob person ifanc; sicrhau addysgu a dysgu o'r radd flaenaf; a chefnogi a grymuso arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well. Caiff hyn oll ei ategu gan system ysgolion sy'n gwella ei hun, lle y gall cydweithio rhwng ysgolion gefnogi a galluogi ysgolion i wella. Swyddogaeth y consortia yw hwyluso a sicrhau'r cydweithredu hwn.

13. Cafodd cynnydd cynnar gan y pedwar consortia rhanbarthol ei asesu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn yn ystod ymweliadau gwaith maes rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015. Cafodd eu hadroddiadau eu cyhoeddi ar y cyd ar 3 Mehefin 2015.

14. Nododd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru y cynnydd positif a oedd wedi'i gyflawni ers cyflwyno'r Model Cenedlaethol a chyflwynwyd nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, y pedwar consortia addysg rhanbarthol a'r 22 awdurdod lleol. Mae'r holl argymhellion wedi'u derbyn mewn ymateb cenedlaethol ar y cyd ar draws y system. Mae camau eisoes wedi'u cymryd o safbwynt llawer o'r argymhellion, gan adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni o'r cyfnod pan gynhaliwyd y gwaith maes i'r cyfnod presennol. Rydym yn anelu at sicrhau eglurder rhwng Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau esgobaethol o safbwynt gwella ysgolion.

15. Caiff gwaith y consortia ei adolygu'n barhaus drwy gylch integredig o sesiynau adolygu a herio. Mae nodau ac amcanion clir a phendant ynghlwm wrth y sesiynau hyn. Canolbwyntiodd sesiwn yr haf ar y cynnydd yr oedd y consortia wedi'i gyflawni o safbwynt mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd sesiwn yr Hydref yn parhau i fonitro cynnydd a hefyd yn asesu effaith gwaith y consortia ar ddeilliannau dysgwyr.

16. Wrth i'r Model Cenedlaethol sefydlu'n raddol rydym wedi gweld rhagor o waith rhannu arferion da ac mae seminarau ar y cyd ynghylch arferion da wedi'u cynnal ar draws Cymru. Yn fwy diweddar trefnodd y pedwar consortia ddeuddydd ar gyfer rhannu arferion da ar 10 ac 11 Medi. Nod y deuddydd oedd mynd i'r afael â llywodraethu ac atebolrwydd; modelau ymyrraeth a chategoreiddio; strategaethau ag iddynt effaith sylweddol ar gyfer cefnogi gan gynnwys cydweithio rhwng ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion; gwerth am arian a sicrhau ansawdd. Yn bwysicach na dim, roedd y deuddydd yn creu cyfle i dynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar holl ysgolion Cymru a mynd i'r afael â hwy. Bydd pob consortiwm yn arwain ar faterion a blaenoriaethau penodol a chenedlaethol, gan osgoi unrhyw ddyblygu diangen. Yn fwyfwy mae arweinwyr strategol yn cydweithio ag arweinwyr cyfatebol mewn consortia eraill er mwyn rhannu gwaith cynllunio. Mae hyn yn helpu i sicrhau rhagor o gysondeb.

17. Tra bo consortia'n gwneud llawer iawn mwy o waith rhannu arferion da o fewn eu rhanbarthau ac ar eu traws maent hefyd yn cydweithio ar lefel fwy ffurfiol. Trwy gydweithio ffurfiodd y pedwar consortia Bartneriaeth

Annibynnol er mwyn cyflwyno cais am y contract i ddilysu'n allanol asesiadau gan athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

18. Mae'r consortia wedi gwella'r gefnogaeth a'r her y maent yn eu cynnig i arweinwyr ysgolion. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd cynghorwyr her y consortia wedi'u hatgyfnerthu, ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl gynghorwyr her. Mae'r consortia hefyd yn fwyfwy cyfarwydd â'u hysgolion ac mae ysgolion yn nodi bod eu perfformiad yn destun gwaith craffu manwl a theg gan y cynghorwyr her. Er enghraifft, y consortia rhanbarthol sy'n gweithredu'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion a chaiff y gwaith ei gymedroli a'i ddilysu ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb.

19. Mae gan y consortia swyddogaeth allweddol o safbwynt pennu a chefnogi Ysgolion Arloesi Digidol, y Fargen Newydd a Dyfodol Llwyddiannus a gweithredu'r rhaglen hyd 2021. Maent yn chwarae rhan allweddol yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu a gweithredu'r rhaglen Dyfodol Llwyddiannus.

**Mesur yr effaith**

20. Er bod gwelliannau cyffredinol o safbwynt safonau cyrhaeddiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf mae Estyn wedi nodi nad oes modd priodoli hyn yn llwyr i ddatblygiad y consortia rhanbarthol. Eto i gyd, mae'r data sydd wedi'u cyhoeddi'n adlewyrchu gwelliant graddol o safbwynt cyrhaeddiad disgyblion ar draws y pedwar rhanbarth. Ymddengys ar hyn o bryd fod y cynnydd hwn wedi'i gynnal i raddau helaeth.

21. O ran eleni mae gwahaniaethau o ran patrymau mynediad i arholiadau wedi golygu nad yw canlyniadau'r haf ond yn rhoi darlun rhannol o berfformiad dysgwyr yng Nghymru. Gwnaeth miloedd o fyfyrwyr sefyll rhai o'u harholiadau TGAU ar ddechrau mis Tachwedd neu fis Ionawr, gan ddibynnu ar y pwnc. Eto i gyd, ni chafodd llwyddiannau'r myfyrwyr hynny eu cofnodi yng nghanlyniadau'r haf. Dim ond yn yr hydref felly, pan fyddwn yn derbyn y canlyniadau TGAU wedi'u dilysu ar gyfer y flwyddyn academaidd, y byddwn yn gweld y darlun cyfan o safbwynt ein perfformiad.

22. O safbwynt perfformiad dysgwyr yn y pynciau craidd, cynyddodd perfformiad dysgwyr 16 oed mewn Iaith Saesneg ar raddau A*-C i 64.0% tra ym Mathemateg dengys data gan y Cydgyngor Cymwysterau fod perfformiad dysgwyr 16 oed ar raddau A*-C yn y flwyddyn academaidd 2014/15 wedi gwella 1.2 pwynt canran i 62.8%.

23. Y prif fesur o safbwynt perfformiad, fodd bynnag, yw data Lefel 2 cynhwysol. Golyga hyn ganran y disgyblion sy'n cyflawni 5 TGAU/cyfwerth ag A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg. Caiff data dros dro ar gyfer 2015 eu cyhoeddi ar 24 Medi, a bydd canlyniadau dros dro ar lefel consortia ar gael o'r dyddiad hwnnw. Mae'r

data hyn yn cynnwys yr holl gymwysterau y mae disgyblion wedi'u hennill hyd at ddiwedd CA4, pryd bynnag y cawsant eu sefyll. Bydd yr wybodaeth derfynol ar gael ar ddechrau mis Rhagfyr.

24. Roedd perfformiad dysgwyr Safon Uwch yn haf 2015 yn sefydlog. Llwyddodd 74.3 o'r dysgwyr i ennill graddau A*-C ymhob pwnc a gwelwyd cynnydd yn nifer y rhai a lwyddodd i gyflawni graddau A*.

25. Roedd perfformiad dysgwyr yn nangosydd pwnc craidd CA2 yn 2015 yn uwch o fewn pob consortiwm yng Nghymru o'i gymharu â 2015. Llwyddodd dros 87% o'r disgyblion ymhob consortiwm i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Mae gwelliannau graddol wedi'u cyflawni o fewn pob consortiwm rhwng 2012 a 2015, ac amrywia'r cynnydd o 4 pwynt canran yn y consortiwm Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i 6.8 pwynt canran yng nghonsortiwm Canol De Cymru.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon